

## Hysbysiadau Archwilio sy'n cael eu hychwanegu gan Reoliadau

Ardystio a chymeradwyo cyfrifon blynyddol ar gyfer 2020-21

Mae rheoliad 15 (1) o Reoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog ariannol cyfrifol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen Iofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn gywir am y flwyddyn . Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 30 Mehefin 2020.

Roedd y swyddog ariannol cyfrifol wedi llofnodi a thystio'r cyfrifon ar 25/06/2021.

Mae rheoliad 15 (2) o Reoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn yr ardystiad gan y swyddog ariannol cyfrifol y cyfeirir ato uchod, fod yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo 'r cyfrifon. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 30 Mehefin 2020.

Nid yw'r Cyngor wedi gallu cwrdd i gymeradwyo'r cyfrifon, bydd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn cyfarfod ar y 6ed Gorffennaf 2021.

## Enghraifft o hysbysiad i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Medi gan bob cyngor

Cyhoeddi cyfrifon archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

Mae rheoliad 15 (5) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, erbyn 30 Medi 2020, i Cyngor Cymuned Llanddeiniolen gyhoeddi ei ddatganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 ynghyd ag unrhyw dystysgrif, barn neu adroddiad a gyhoeddwyd, a roddwyd neu a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r datganiadau cyfrifyddu ar ffurf ffurflen flynyddol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, cyhoeddir y cyfrifon cyn i'r archwiliad ddod i ben. Oherwydd effaith COVID-19, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi barn archwilio eto.